

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 6 Hydref, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, R.E. Godfrey, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a E. Penn.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a R. Morteo ((Yr Eglwys yng Nghymru).

Hefyd yn bresennol: R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr W. Gilligan a N.B. Marshallsea; a L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Y Cynghorydd E.J. Goodjohn	Eitem Agenda 6 – Y Diweddaraf ar Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE).	Buddiant sy'n Rhagfarnu – Roedd y Cynghorydd Goodjohn yn addysgwr cartref dewisol. Gadawodd y Cynghorydd Goodjohn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.
----------------------------	--	--

EITEM AGENDA 4. HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi Cyfeirnod y Cabinet a'r Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg sydd ynghlwm.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran cyflawni ymrwymadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 fel y'i haliniwyd ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn unol ag adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 .

EITEM AGENDA 5. MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST, 2022 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) NODI'r trefniadau i wneud iawn am y gorwariant sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) NODI'r pwysau costau ychwanegol o £2.840m ar ysgolion yr 2022/23, y gallai fod angen eu talu o falansau ysgolion.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r alldro refeniw rhagamcanol ar gyfer 2022/23 yn ogystal â phwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23 a phwysau ychwanegol ar ysgolion yn 2022/23.

EITEM AGENDA 6. Y Diweddaraf ar Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADC) (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y DYLLID nodi'r cynnydd a wnaed ym maes Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADC) yn ystod y 12 mis diwethaf.
- (2) Y byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddarau cynnydd pellach mewn perthynas â'r ddarpariaeth barhaus, a mesurau pellach i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd a wneir o grantiau ADC ar gyfer cefnogi dysgwyr ADC ymhen 12 mis.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad i alluogi'r Cyngor i graffu ar ei rwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth Addysg berthnasol i sicrhau bod pob dysgwr o oedran ysgol statudol yn derbyn addysg addas a llawn amser naill ai yn yr ysgol neu fel arall.

- (2) Mae'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am:
 - cynnydd pellach ac effaith debygol unrhyw weithrediad o'r canllawiau statudol diwygiedig arfaethedig ar Addysg Gartref a'r rheoliadau drafft

- arfaethedig sy'n ymgorffori'r gofyniad i Awdurdodau Lleol gadw cronfa ddata Plant sy'n Colli Addysg (PCA);
- y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chyflwyno parhaus, a chodi ymwybyddiaeth bellach o'r defnydd a'r effaith o grantiau ADC ar gyfer cefnogi dysgwyr ADC a newidiadau parhaus i'r disgwyliadau; a
 - rhwymedigaethau a osodir ar yr Awdurdod Lleol o ran dysgwyr ADC a dysgwyr y gellir eu categoreiddio'n PCA gyda ffocws penodol ar y rhai sy'n colli eu hawl i addysg.

EITEM AGENDA 7. ADDYSG DDIWEDDARAF AR RAGLEN ADSEFYDLU SYRIA (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y DYLLID nodi'r cynnydd a wnaed yng nghylch gwaith addysg Rhaglen Adsefydlu Syria (RAS), yn ystod y 12 mis diwethaf.
- (2) BOD y Pwyllgor yn derbyn diweddariad pellach ar y cynnydd o ran cyflwyno a chefnogi disgyblion yn y RAS a disgyblion eraill â statws ffoadur ymhen 12 mis.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar y Cyngor o dan Ddeddf Addysg 2002 i sicrhau bod pob disgybl o oedran ysgol statudol yn derbyn addysg addas a llawn amser naill ai yn yr ysgol neu fel arall.
- (2) Mae'r Pwyllgor Craffu yn parhau i fod â throsolwg ac ymwybyddiaeth o'r disgwyliadau parhaus a osodir ar yr Awdurdol Lleol ynghylch disgyblion yn y RAS.

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2021/22 (CDS) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID nodi'r Adroddiad Hyfforddiant Llywodraethwyr blynyddol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad blynyddol treigl.

EITEM AGENDA 9. RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2022/23 (PW) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y DYLLID cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau ar gyfer 2022/23, fel y'i hatodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.